

Allan o Gair yn Gymorth

Gol. Manon Wyn Sion

Tudalen 37

Iaith Dargedu

Rhan annatod o'r broses gosod targedau yw bod yr athro yn gosod targedau i sicrhau cynnydd yng ngwaith y disgybl.

Berfau Perthnasol Targedu (i'r athro)	
Modd Gorchmynnol	
Ffuriau cwmпасog	Ffuriau cryno (Ti)
Mae'n rhaid i ti ddarllen	Darllena
Mae'n rhaid i ti ysgrifennu	Ysgrifenna
Mae'n rhaid i ti esbonio	Esbonia
Mae angen i ti sicrhau	Sicrha dy fod yn ...
Mae angen i ti drefnu	Trefna dy waith ...
Mae angen i ti adolygu	Adolyga'n drwyadl ...
Mae angen i ti geisio	Cisia
Mae angen i ti wirio	Gwiria
Mae angen i ti roi	Rho

Fel arfer targedir disgybl trwy ei orchymyn **neu** ei gymell a hynny naill ai ar ffurf pwyntiau cryno neu orchymyn neu trwy ei gymell yn uniongyrchol.

Pwyntiau cryno

- **Adolygu** ymadroddion chwarae rôl ar gyfer yr arholiad llafar.
- **Parhau** i ddarllen nofelau i gyfoethogi geirfa a syniadau.
- **Sicrhau** bod safon y gwaith graffeg yn cyfleu'r syniadau'n glir.

Y modd gorchmynnol

- **Darllena** nodiadau 'Yr Almaen 1918-90' er mwyn cynyddu dealltwriaeth o destunau anodd fel 'gorchwyddiant'.
- **Benthyca** gylchgronau Ffrangeg i ddarllen dros y gwyliau er mwyn adolygu geirfa.
- **Cofia** ddod â'r wisg addysg gorfforol gywir i bob gwers.

neu

Cymell y disgybl yn uniongyrchol

- **Mae angen i ti** sicrhau dy fod yn ateb gofynion y cwestiwn yn fanwl.
- **Dylet ti** ymestyn dy sylwadau a defnyddio mwy o dystiolaeth i gefnogi dy farn.
- **Byddet yn elwa** o adolygu gwaith rhif ac onglau.

Allan o Gair yn Gymorth
Gol. Manon Wyn Sion
Tudalen 37

Iaith Dargedu (athrawon)

Adolyga...	Anela at...	Beth am ...	Byddai'n fuddiol i ti...
Byddai'n werthfawr i ti ...	Byddet yn elwa ...	Cofia...	Ceisfa...
Defnyddia...	Dy brif darged yw ...	Dylet...	Er mwyn cyrraedd...
Mae'n rhaid...	Fe fyddet ti yn elwa o...	Gallet ti ...	Gweithia nawr at ...
Cyda mwy o ... gallet ti ...	Gwylia dy fod ...	Gwna'n siŵr dy fod ...	Hoffwn dy weld...
Mae angen iti...	I gyrraedd lefel uwch...	Mae'n rhaid i ti...	Manteisia ar ... i ...
Mwy o... sydd angen i...	Os am...mae'n rhaid...	Mantais fawr i ti fyddai ...	Rhaid anelu nawr at...
Rhaid iti feistroli...	Sicrha dy fod yn...	Tanlinella...	Trefna...
Targed pwysig yw...	Ymchwilia ...	Targed mae'n rhaid ei gyrraedd yw...	
Targed y mae'n rhaid i ti weithio arno yw ...		Ymhlith yr holl dargedau yr un pwysigaf i ti yw...	
Byddai rhoi sylw i ... yn sicr o wella ...		Dy nod yn ystod y tymor nesaf yw...	
Fe welet welliant mawr petaet yn...		I ddatblygu dy waith ymhellach rhaid...	
O ganolbwyntio ar... fe allet ti		Mae'n rhaid canolbwyntio ar...	